# SCDLMCD1
# Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sy'n cynorthwyo'r ddarpariaeth gwasanaeth i gyflawni ei weledigaeth a'i diben a chanlyniadau cadarnhaol i unigolion.

# SCDLMCD1

Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

## Meini prawf perfformiad

**Arwain a rheoli perthnasoedd gwaith effeithiol gyda rhwydweithiau a chymunedau**

*Mae'n rhaid i chi allu:*

P1 adolygu systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer gweithio gyda rhwydweithiau a chymunedau i sicrhau eu bod yn cynorthwyo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i **unigolion**

P2 gweithredu systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer gweithio gyda rhwydweithiau a chymunedau yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

P3 meithrin perthnasoedd gyda rhwydweithiau a chymunedau i gefnogi gweledigaeth a diben y ddarpariaeth gwasanaeth

P4 galluogi gweithwyr i gael at **gyfleoedd datblygu** sy'n eu cynorthwyo nhw i ddatblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i weithio'n effeithiol gyda rhwydweithiau a chymunedau er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

P5 sicrhau bod gweithwyr yn ymgysylltu ag unigolion a phobl allweddol er mwyn nodi rhwydweithiau a chymunedau a allai gyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol

P6 sefydlu **protocolau** gydag unigolion a **phobl eraill** ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda rhwydweithiau a chymunedau

P7 sicrhau bod gweithwyr yn cynorthwyo unigolion i gael at rwydweithiau a chymunedau a allai gyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol

P8 monitro'r ymgysylltiad rhwng unigolion a rhwydweithiau a chymunedau

P9 cynorthwyo gweithwyr i fynd i'r afael â chyfyng-gyngor neu wrthdaro **moesegol**, a mathau eraill o gyfyng-gyngor a gwrthdaro, sy'n codi wrth weithio gyda rhwydweithiau a chymunedau

P10 casglu adborth gan unigolion, **pobl allweddol** a phobl eraill ynghylch effeithiolrwydd perthnasoedd gyda chymunedau a rhwydweithiau

P11 dadansoddi effeithiolrwydd perthnasoedd gyda chymunedau a rhwydweithiau i nodi pa mor dda y maent wedi cynorthwyo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

P12 dehongli'r dadansoddiad o effeithiolrwydd perthnasoedd gyda chymunedau a rhwydweithiau er mwyn gwneud argymhellion ynghylch gwelliannau i systemau, gweithdrefnau ac arferion

P13 gweithredu newidiadau er mwyn mynd i'r afael â meysydd i'w

gwella

**Arwain partneriaethau a pherthnasoedd gwaith effeithiol rhwng y ddarpariaeth gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill**

*Mae'n rhaid i chi allu:*

P14 gweithredu systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer partneriaethau a pherthnasoedd gwaith gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
P15 sefydlu nodau a diben gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill
P16 sicrhau bod trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
P17 cytuno ar ganlyniadau disgwyliedig gweithio mewn partneriaeth
P18 egluro rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pawb sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
P19 sicrhau eich bod chi a phobl eraill yn cydnabod gwerthoedd, ethos a diben sefydliadau eraill
P20 sicrhau eich bod chi a phobl eraill yn cydnabod y codau ymarfer proffesiynol a'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i weithwyr proffesiynol eraill
P21 sicrhau eich bod chi a phobl eraill yn parchu gwahanol sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill
P22 sefydlu protocolau gydag unigolion a phobl eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill
P23 rheoli'r gwaith o rannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill
P24 sicrhau bod protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn cael eu gweithredu gan bawb sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
P25 gweithio gyda phobl eraill i fonitro ac adolygu cyflawniad canlyniadau
P26 gweithredu i ddatrys anawsterau o ran cyflawni canlyniadau
P27 rheoli gwrthdaro buddiannau ac anghytundeb mewn ffyrdd sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol
P28 gwerthuso effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth yn ôl canlyniadau disgwyliedig
P29 gweithredu newidiadau er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle na chyflawnwyd canlyniadau disgwyliedig

**Cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a strategaethau lleol sy'n cael**

**effaith ar ganlyniadau cadarnhaol i unigolion**

*Mae'n rhaid i chi allu:*

P30 adolygu gwybodaeth am wasanaethau a **strategaethau lleol**

P31 gweithio gyda phobl eraill i nodi sut y gall gwasanaethau a strategaethau lleol gynorthwyo'r ddarpariaeth gwasanaeth i gyflawni ei gweledigaeth a'i diben

P32 gweithio gyda phobl eraill i nodi sut y gall y ddarpariaeth gwasanaeth elwa o gyfrannu at wasanaethau a strategaethau lleol

P33 gweithio gyda phobl eraill i nodi bylchau mewn gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion unigolion o fewn y ddarpariaeth gwasanaeth

P34 **gwerthuso'n feirniadol** risgiau, costau a manteision sy'n gysylltiedig â chyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a strategaethau lleol er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch cyfranogi

P35 arwain y gwaith o reoli systemau, gweithdrefnau ac arferion er mwyn cymryd rhan mewn datblygu gwasanaethau a strategaethau lleol

P36 sicrhau eich bod chi a phobl eraill yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu gwasanaethau a strategaethau lleol sy'n berthnasol i anghenion a chanlyniadau'r ddarpariaeth gwasanaeth

P37 mynd i'r afael â chyfyng-gyngor a gwrthdaro sy'n codi wrth gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a strategaethau lleol

P38 **dadansoddi'n feirniadol** effeithiolrwydd cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau a strategaethau lleol er mwyn nodi'r effaith ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol

P39 dehongli'r dadansoddiad o effeithiolrwydd cyfrannu at wasanaethau a strategaethau lleol er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwaith yn y dyfodol

# SCDLMCD1
Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### Hawliau

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K1 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith o ran cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu a hawliau
K2 eich rôl o ran datblygu a chynnal systemau, gweithdrefnau ac arferion sy'n hyrwyddo hawliau, dewisiadau, lles a chyfranogiad gweithgar unigolion
K3 eich dyletswydd i roi gwybod am unrhyw beth y sylwch y mae pobl yn ei wneud, neu unrhyw beth y maent yn methu â'i wneud, a allai rwystro hawliau unigolion
K4 sut i **werthuso'n feirniadol** a gweithredu'n wybodus yn erbyn gwahaniaethu
K5 yr hawliau sydd gan unigolion i gwyno a chael cymorth i wneud hynny
K6 sut i sicrhau bod unigolion yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei dderbyn
K7 eich rôl o ran datblygu a chynnal systemau, gweithdrefnau ac arferion sy'n sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar wybodaeth amdanynt eu hunain mewn fformat y gallant ei ddeall
K8 achosion o wrthdaro a chyfyng-gyngor a allai godi mewn perthynas â hawliau, a sut i fynd i'r afael â'r rhain

### Eich ymarfer

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K9 deddfwriaeth, codau statudol, safonau, fframweithiau a chanllawiau sy'n berthnasol i'ch gwaith, i'ch lleoliad gwaith ac i gynnwys y safon hon
K10 eich cefndir, eich profiadau a'ch credoau eich hun a allai gael effaith ar y ffordd rydych yn gweithio
K11 eich rolau, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun a'u terfynau a'u ffiniau
K12 rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pobl eraill rydych chi'n gweithio gyda nhw
K13 sut i gael gwybod am weithdrefnau a ffyrdd cytûn o weithio, a gweithio yn unol â hwy
K14 ystyr dulliau gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/y plentyn a phwysigrwydd adnabod a pharchu pob person fel unigolyn
K15 natur hollbwysig buddiannau a lles yr unigolyn
K16 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn
K17 sut i feithrin ymddiriedaeth a chytgord mewn perthynas

K18 sut y gall eich **pŵer a’ch dylanwad** fel arweinydd a rheolwr effeithio ar berthnasoedd
K19 rôl cynrychiolaeth annibynnol ac eiriolaeth ar gyfer unigolion
K20 sut i weithio mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfranogiad gweithgar ac yn cynnal urddas, parch, credoau personol a dewisiadau unigolion
K21 sut i weithio mewn ffyrdd sy’n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion
K22 sut i reoli adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau sy’n cyrraedd targedau ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion
K23 sut i wahaniaethu rhwng **allbynnau** a **chanlyniadau**
K24 sut i weithio mewn partneriaeth ag unigolion, pobl allweddol a phobl eraill
K25 sut i nodi a rheoli gwrthdaro a chyfyng-gyngor moesegol yn eich gwaith
K26 sut i herio arfer gwael a mynd i’r afael ag ef
K27 sut i ymdrin â phryderon a chwynion
K28 sut a phryd i geisio cymorth mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch profiad a'ch arbenigedd
K29 natur ac effaith **ffactorau a allai effeithio ar iechyd, lles a datblygiad unigolion** rydych yn gofalu amdanynt neu'n eu cynorthwyo
K30 damcaniaethau sy'n sail i'n dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno

**Personoli ac adnoddau**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K31 sut i werthuso’n feirniadol ddamcaniaethau sydd wedi’u seilio ar dystiolaeth a gwybodaeth a modelau o arfer da yn ymwneud ag ymrymuso a gwasanaethau a gyfeirir gan ddinasyddion
K32 sut i nodi a hybu potensial unigolion i ddefnyddio’u cryfderau a’u hadnoddau personol i gyflawni newid
K33 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd o ddatblygu’r rhain
K34 natur **personoli** a gwasanaethau wedi’u personoli, gan gynnwys cymorth hunangyfeiriedig
K35 yr amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael mewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, drwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol a thrwy arloesedd
K36 sut y gellir defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi annibyniaeth unigolion
K37 sut i arwain, rheoli a chynorthwyo pobl eraill i gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau wedi’u personoli gydag unigolion

**Datblygiad proffesiynol parhaus**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K38 egwyddorion arfer myfyriol a pham mae hyn yn bwysig
K39 eich rôl chi o ran datblygu gwybodaeth ac arferion proffesiynol pobl eraill
K40 sut i hyrwyddo **arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth**
K41 dulliau o reoli perfformiad er mwyn cyrraedd targedau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
K42 sut i asesu perfformiad
K43 sut i roi adborth adeiladol i bobl eraill ar eu harfer a'u perfformiad
K44 sut i fynd i'r afael â pherfformiad nad yw'n cyrraedd safonau gofynnol
K45 sut i ddefnyddio goruchwyliaeth i gefnogi arfer a pherfformiad pobl eraill
K46 sut i ddefnyddio arfarnu i gefnogi arfer a pherfformiad pobl eraill
K47 systemau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer rheoli llwythi gwaith
K48 dulliau ar gyfer dirprwyo gwaith

**Cyfathrebu**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K49 ffactorau a all effeithio ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau iaith a'u datblygiad mewn plant, pobl ifanc neu oedolion
K50 dulliau o hyrwyddo cyfathrebu effeithiol a galluogi unigolion i gyfleu eu hanghenion, eu safbwyntiau a'u dewisiadau
K51 ffactorau a all effeithio ar gyfathrebu o fewn a rhwng sefydliadau
K52 dulliau o hybu cyfathrebu effeithiol o fewn a rhwng sefydliadau

**Iechyd a Diogelwch**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K53 gofynion cyfreithiol a gofynion statudol ar gyfer iechyd a diogelwch
K54 polisïau ac arferion eich lleoliad gwaith ar gyfer monitro a chynnal iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd gweithio

**Diogelu**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K55 deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion
K56 y cyfrifoldeb sydd gan bawb i godi pryderon ynghylch achosion posibl o niwed neu gamdriniaeth, arferion gwael neu arferion

gwahaniaethol

K57 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl

K58 sut a phryd i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch niwed neu gamdriniaeth, arferion gwael neu wahaniaethol, adnoddau neu anawsterau gweithredol

K59 beth i'w wneud os ydych wedi rhoi gwybod am bryderon ond nad oes unrhyw gamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hwy

K60 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a systemau lleol sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn rhag niwed neu gamdriniaeth

K61 sut i gefnogi pobl eraill sydd wedi mynegi pryderon am niwed neu gamdriniaeth

**Gwaith amlddisgyblaethol**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K62 diben gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill

K63 cylch gwaith a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â gwaith amlddisgyblaethol

K64 nodweddion cyfathrebu amlddisgyblaethol a rhyngasiantaethol

K65 sut y gall gwahanol athroniaethau, egwyddorion, blaenoriaethau a chodau ymarfer effeithio ar weithio mewn partneriaeth

**Delio â gwybodaeth**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K66 gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth

K67 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith ar gyfer cofnodi gwybodaeth a pharatoi adroddiadau o fewn amserlenni

K68 egwyddorion cyfrinachedd a phryd i drosglwyddo gwybodaeth sydd fel arall yn gyfrinachol

K69 sut i gefnogi rhannu gwybodaeth yn effeithiol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

K70 sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir ac yn eglur, gyda pherthnasedd a lefel briodol o fanylion

K71 sut i ddefnyddio barn sydd wedi'i seilio ar wybodaeth, ffeithiau a thystiolaeth i gefnogi dyfarniadau proffesiynol mewn cofnodion ac adroddiadau

K72 sut a lle y gall ac y dylai cyfathrebiadau electronig gael eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau

**Arwain a rheoli arfer**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K73 sut i **ddadansoddi'n feirniadol** ddamcaniaethau ynglŷn ag

**arweinyddiaeth** a **rheolaeth**

K74 safonau arfer, safonau gwasanaeth a chanllawiau sy’n ymwneud â’r lleoliad gwaith
K75 mentrau cenedlaethol a lleol i hybu lles unigolion
K76 modelau arfer ar gyfer defnyddio ymyriadau cynnar
K77 gwersi a ddysgwyd o adroddiadau, gwaith ymchwil ac ymchwiliadau’r llywodraeth i fethiannau difrifol mewn arferion iechyd neu ofal cymdeithasol, neu wersi a ddysgwyd o ymyriadau llwyddiannus
K78 dulliau o gefnogi pobl eraill i weithio gydag unigolion, pobl allweddol a phobl eraill a’u cynorthwyo
K79 sut i arwain a rheoli arfer sy’n cyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion
K80 dulliau o gefnogi pobl eraill i adnabod a chymryd camau gwybodus yn erbyn gwahaniaethu
K81 sut i ddatblygu systemau, arferion, polisïau a gweithdrefnau
K82 sut i weithredu, monitro a gwerthuso systemau, arferion, polisïau a gweithdrefnau
K83 sut i hyrwyddo gwasanaethau a chyfleusterau eich lleoliad gwaith
K84 technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn arloesol
K85 sut i ysgogi pobl eraill
K86 sut i werthuso’n feirniadol ddamcaniaethau sydd wedi’u seilio ar dystiolaeth a gwybodaeth a modelau o arfer da yn ymwneud â rheoli newid
K87 sut i ddefnyddio technegau rheoli newid

### Rheoli risg

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K88 sut i werthuso egwyddorion a fframweithiau asesu risg a rheoli risg yn feirniadol
K89 egwyddorion cymryd risgiau cadarnhaol
K90 sut i arwain pobl eraill i ddatblygu arfer sy’n cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol

### Rheoli pobl

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K91 gofynion cyfreithiol a gofynion y lleoliad gwaith ar gyfer **arferion cyflogaeth**
K92 trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol ar gyfer y lleoliad gwaith
K93 ffactorau a all arwain at bwysau ar berfformiad y gwasanaeth, yr unigolyn a’r tîm
K94 sut i reoli eich amser, eich adnoddau a’ch llwyth gwaith eich hun a

phobl eraill

K95 sut i reoli dynameg tîm

K96 sut i greu diwylliant sy'n hybu bod yn agored, creadigrwydd a datrys problemau

K97 sut i greu diwylliant sy'n cefnogi pobl i groesawu newid

**Yn benodol i'r SGC hon**

*Mae angen i chi wybod a deall:*

K98 sut i werthuso'n feirniadol ddulliau, egwyddorion ac ymagweddau arwain a rheoli sy'n berthnasol i gefnogi pobl i ymwneud â rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill

K99 sut i werthuso'n feirniadol lenyddiaeth, ymchwil, damcaniaethau a modelau ynghylch gweithio mewn partneriaeth

K100 damcaniaethau ac arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag effaith rhwydweithiau a chymunedau ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion, a'u lles

K101 damcaniaethau, dulliau ac ymagweddau ynghylch sut y mae amrywiaeth strwythurau cymdeithasol a chymunedol yn effeithio ar waith gyda rhwydweithiau a chymunedau

K102 y gwahaniaeth rhwng cymunedau buddiant a chymunedau daearyddol lleol

K103 yr effaith y mae lleoliad y ddarpariaeth gwasanaeth, ei strwythur ffisegol, ei hamgylchedd a'i pherthynas â'r gymuned a gwasanaethau ac asiantaethau eraill yn ei chael ar gynhwysiad cymdeithasol unigolion

K104 effaith polisi cymdeithasol ac agweddau cymdeithasol ar rwydweithiau a chymunedau

K105 damcaniaeth, dulliau ac ymagweddau ynghylch cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â rhwydweithiau a chymunedau

K106 dulliau o ysgogi timau amlddisgyblaethol neu amlasiantaethol i gydweithio mewn ffyrdd creadigol ac effeithiol

K107 sut y gall rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr proffesiynol eraill effeithio ar eu hymwneud â rhwydweithiau, cymunedau a sefydliadau

# SCDLMCD1
Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Cwmpas/ystod yn gysylltiedig â'r meini prawf perfformiad

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gall yr SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC

**Dadansoddi'n feirniadol** yw archwilio rhywbeth yn ofalus, fel polisi, gweithdrefn, damcaniaeth, sefyllfa gymhleth, problem neu ddull o weithio – gan nodi'r elfennau neu'r materion sy'n cyfrannu at y cynnyrch, y sefyllfa neu'r syniad cyfan a phennu sut mae'r rhannau gwahanol hyn yn effeithio ar ansawdd y cynnyrch cyfan neu sut mae'r materion unigol yn effeithio ar y sefyllfa gyfan

Mae dadansoddi'n feirniadol yn cynnwys pwyso a mesur y ffactorau dan sylw, o ran y cryfderau / gwendidau neu'r manteision / anfanteision y maent yn eu cyfrannu at gynnyrch neu sefyllfa. Mae dadansoddi'n feirniadol yn rhan o'r broses o ddeall materion a datblygu ymatebion gwreiddiol a chreadigol

**Gwerthuso'n feirniadol** yw pwyso a mesur dadleuon o blaid ac yn erbyn rhywbeth, gan asesu'r holl dystiolaeth; gallai hyn ymwneud â ffactorau fel modelau o gyflwyno gwasanaethau gofal, datblygiad polisi, damcaniaethau, dulliau o weithio

Mae gwerthuso'n feirniadol yn gofyn am bwyso a mesur a gwneud dyfarniadau ynglŷn â ffactorau fel cyfredolrwydd, perthnasedd, dilysrwydd, canlyniadau, cost, cynaliadwyedd a risg cynnyrch neu wasanaeth, a pha mor addas ydyw i'w ddiben, o gymharu â chynhyrchion, gwasanaethau neu syniadau eraill, gan ddefnyddio meini prawf perthnasol fel sail i'r gwerthusiad ac i lywio'r broses gwneud penderfyniadau

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, arwain, cysgodi, ymsefydlu, goruchwylio, darllen dan arweiniad, ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau gan grwpiau o gymheiriaid

**Moesegol** – dyma sylfaen broffesiynol a moesol y gwaith sy'n cael ei gyflawni. Caiff hyn ei ymgorffori yn y codau ymarfer

Yr **unigolyn** yw'r sawl rydych chi'n ei gefnogi neu'n gofalu amdano yn eich gwaith

**Pobl allweddol** yw'r bobl hynny sy'n bwysig i unigolyn ac sy'n gallu gwneud gwahaniaeth i les yr unigolyn hwnnw. Gall pobl allweddol gynnwys teulu, ffrindiau, cynhalwyr ac eraill y mae gan yr unigolyn berthynas gefnogol â nhw

Mae **strategaethau lleol** yn gynlluniau a chytundebau rhwng sefydliadau

statudol, gwirfoddol a phreifat ar gyfer cydweithredu i gyflawni canlyniadau gwell i grŵp penodol o bobl, fel pobl ifanc neu bobl hŷn yn y gymuned

**Pobl eraill** yw'r gweithwyr rydych chi'n eu rheoli, eich cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn cyfrannu at les yr unigolyn ac sy'n eich galluogi i gyflawni eich rôl

Gall **protocolau** gynnwys: mynediad at wybodaeth; cyfrinachedd; diogelu data; dewis a hawliau unigolion; diogelu; cyfnewid a storio'n ddiogel

# SCDLMCD1
Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

## Cwmpas/ystod yn gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae'r manylion yn y maes hwn yn ddatganiadau esboniadol o'r cwmpas a/neu yn enghreifftiau o gyd-destunau posibl lle y gall yr SGC fod yn gymwys; ni ddylid eu hystyried yn ddatganiadau ystod sy'n ofynnol i gyflawni'r SGC.

**Mae'n rhaid cymhwyso pob datganiad am wybodaeth yng nghyd-destun y safon hon.**

**O ran yr holl ddatganiadau am wybodaeth, mae angen i chi wybod a deall y meysydd gwybodaeth a nodwyd a gallu defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn feirniadol yn eich arferion arwain a rheoli**

**Dadansoddi'n feirniadol** yw archwilio rhywbeth yn ofalus, fel polisi, gweithdrefn, damcaniaeth, sefyllfa gymhleth, problem neu ddull o weithio – gan nodi'r elfennau neu'r materion sy'n cyfrannu at y cynnyrch, y sefyllfa neu'r syniad cyfan a phennu sut mae'r rhannau gwahanol hyn yn effeithio ar ansawdd y cynnyrch cyfan neu sut mae'r materion unigol yn effeithio ar y sefyllfa gyfan

Mae dadansoddi'n feirniadol yn cynnwys pwyso a mesur y ffactorau dan sylw, o ran y cryfderau / gwendidau neu'r manteision / anfanteision y maent yn eu cyfrannu at gynnyrch neu sefyllfa. Mae dadansoddi'n feirniadol yn rhan o'r broses o ddeall materion a datblygu ymatebion gwreiddiol a chreadigol

**Gwerthuso'n feirniadol** yw pwyso a mesur dadleuon o blaid ac yn erbyn rhywbeth, gan asesu'r holl dystiolaeth; gallai hyn ymwneud â ffactorau fel modelau o gyflwyno gwasanaethau gofal, datblygiad polisi, damcaniaethau, dulliau o weithio

Mae gwerthuso'n feirniadol yn gofyn am bwyso a mesur a gwneud dyfarniadau ynglŷn â ffactorau fel cyfredolrwydd, perthnasedd, dilysrwydd, canlyniadau, cost, cynaliadwyedd a risg cynnyrch neu wasanaeth, a pha mor addas ydyw i'w ddiben, o gymharu â chynhyrchion, gwasanaethau neu syniadau eraill, gan ddefnyddio meini prawf perthnasol fel sail i'r gwerthusiad ac i lywio'r broses gwneud penderfyniadau

Dylai **arferion cyflogaeth** gynnwys recriwtio, rheoli perfformiad, gweithdrefnau disgyblu, gweithdrefnau cwyno

Mae **arfer wedi'i seilio ar dystiolaeth** yn defnyddio systemau, prosesau a 'doethineb arfer' a fu'n effeithiol wrth gynorthwyo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gallai tystiolaeth fod wedi deillio o amrywiaeth o ffynonellau: ymchwil ffurfiol ac anffurfiol, a barn a safbwyntiau unigolion, pobl allweddol a

phobl sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal

Gall **ffactorau a allai effeithio ar iechyd, lles a datblygiad** gynnwys amgylchiadau andwyol neu drawma cyn neu yn ystod genedigaeth; anhwylder ar y sbectrwm awtistig; dementia; amgylchiadau teuluol; eiddilwch; niwed neu gamdriniaeth; anaf; anabledd dysgu; cyflyrau meddygol (cronig neu acíwt); iechyd meddwl; anabledd corfforol; salwch corfforol; tlodi; anghenion dwys neu gymhleth; anghenion synhwyraidd; amddifadedd cymdeithasol; camddefnyddio sylweddau

**Arweinyddiaeth** yw’r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o ddiben. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu’r gwerthoedd a’r ymddygiadau y maent yn eu hybu. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn ysgogol

**Rheolaeth** yw’r gallu i osod y cyfeiriad ar gyfer y sefydliad a threfnu bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei rhedeg yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso a threfnu adnoddau er mwyn sicrhau bod pobl eraill yn gallu perfformio hyd eithaf eu gallu, gan ganiatáu iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau’n effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy’n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

**Canlyniadau** yw’r newidiadau neu’r gwahaniaethau y mae unigolion neu wasanaethau gofal yn ceisio’u cyflawni. Mae canlyniadau caled yn newidiadau eglur ac amlwg, neu’n rhai sy’n arwain at newid gweladwy mewn ymddygiad neu amgylchiadau pobl. Mae canlyniadau meddal yn newidiadau nad ydynt mor hawdd eu gweld a’u mesur, neu’n rhai sy’n cynnwys newidiadau mwy cynnil mewn pobl, fel newid yn agwedd rhywun, ei ymdeimlad o les neu sut y mae’n ei weld ei hun neu’n teimlo amdano’i hun

Mae **allbynnau** yn gynhyrchion, gwasanaethau neu gyfleusterau pendant sy’n deillio o weithgareddau’r sefydliad neu weithgareddau’r rhai hynny sy’n ymwneud â chyflwyno’r ddarpariaeth gwasanaethau. Gellir defnyddio allbynnau i gyflawni canlyniadau

Gellir diffinio **personoli** fel 'newid y cydbwysedd grym fel bod gan bob person ddewis a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau gofal y dymunant eu cael. O fod yn derbyn gwasanaethau yn unig, daw unigolion yn rhan o ddewis a ffurfio’r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio'. Mae personoli yn ddull gofal cymdeithasol sy’n cynnwys cymorth wedi’i gyfeirio gan y dinesydd; cymorth hunangyfeiriedig; defnyddio taliadau uniongyrchol neu gyllidebau personol; darparu gwybodaeth a chyngor sydd ar gael yn rhwydd am ofal a

chymorth, a hybu annibyniaeth a hunanddibyniaeth ymhlith unigolion a chymunedau

Yn ddibynnol ar sut caiff ei ddefnyddio, gall **pŵer a dylanwad** arweinwyr a rheolwyr naill ai gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar berthnasoedd

## Gwerthoedd

Glynu wrth godau ymarfer neu ymddygiad lle y bônt yn berthnasol i'ch rôl a'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'ch lleoliad gwaith, gan gynnwys hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae’r rhain yn cynnwys yr hawliau:

- I gael eu trin fel unigolyn
- I gael eu trin yn gyfartal a pheidio ag wynebu gwahaniaethu
- I gael eu parchu
- I gael preifatrwydd
- I gael eu trin mewn ffordd urddasol
- I gael eu diogelu rhag perygl a niwed
- I gael cymorth a gofal mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion, sy'n ystyried eu dewisiadau ac sy'n eu hamddiffyn hefyd
- I gyfathrebu gan ddefnyddio eu dulliau cyfathrebu ac iaith ddewisol
- I allu cael gafael ar wybodaeth amdanynt hwy eu hunain

## SCDLMCD1
Arwain a rheoli gwaith gyda rhwydweithiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth gofal

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad y'i cymeradwywyd** | Ionawr 2013 |
| **Dyddiad adolygu dangosol** | Ionawr 2016 |
| **Dilysrwydd** | Cyfredol |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | LMCD1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Rheolwyr ac Uwch Swyddogion; Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Gwasanaethau Gofal Plant a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig; |
| **Cyfres** | Arweinyddiaeth a Rheolaeth mewn Gwasanaethau Gofal |
| **Geiriau allweddol** | Arwain; rheoli; perthnasoedd gwaith, rhwydweithiau partneriaeth; cymunedau; sefydliadau; gweithwyr proffesiynol eraill; canlyniadau cadarnhaol i unigolion |